

**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
**Ffôn: 02920 490582**  
**E-bost: aluntudur@btinternet.com**

**Golygyddion**  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
**Ffôn: 01766 513138**  
**E-bost: IwanLlew@aol.com**

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
**Ffôn: 01267 232577 /**  
**0781 751 9039**  
**E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk**

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**  
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWE SA7 0AJ**  
**Ffôn: 01792 795888**  
**E-bost: undeb@annibynwyr.org**

### Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

## Dathlu Yng Nghaersalem



*Y dynion yn coginio barbeciw blasus iawn nos Wener 10 Gorffennaf 2016 gan ddathlu gweithgareddau'r Ysgol Sul.*



*Roedd plant Ysgol Sul Caersalem, Pontyberem, wrth eu bodd ac yn cael hwyl yn y sesiwn gemau yn dilyn barbeciw diwedd Tymor yr Ysgol Sul. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl i'n plith ym mis Medi.*

## Mawl o Fadagascar

Gwfreiddiwyd aelodau Capel y Nant, Clydach, Abertawe, gan oedfa fyrlymus a lliwgar a arweiniwyd gan grŵp o artistiaid Cristnogol 'Ny Ako' o Fadagascar ar fore Sul, Mehefin 12. Cyflwynwyd yr addoliad yn Neuadd y Nant fodern yn hytrach na'r capel ar ôl deall y byddai'n cynnwys dawnsio yn ogystal â chanu byrlymus i gyfeiliant band. Yn ogystal â bywiogrwydd y cyflwyniadau, gwerthfawrogwyd neges afaelgar a gafwyd gan arweinydd y grŵp am dystiolaeth Gristnogol aelodau 'Ny Ako'. Cyfeiriodd at y Cymry gyflwynodd hanes Iesu Grist i bobl Madagascar bron i ddwy ganrif yn ôl.

Wedi'r oedfa, bu stondinau'n gwerthu crefftau traddodiadol o'r ynys. Diolchwyd yn gynnes i gyfeillion 'Ny Ako' am yr oedfa gofiadwy gan arweinydd Capel y Nant, Robot Powell. Diolchwyd, hefyd, am y cymorth a gafwyd gan Eglwys Llanfair, Pen-rhys, wrth drefnu'r ymweliad. Gellir gweld lluniau a fideo am yr oedfa ar wefan Capel y Nant: [www.capelynant.org](http://www.capelynant.org)




## Cerddorion Pabell yr Eglwys

Y rhai fu'n canu ym Mhabell yr Eglwys i ddathlu cyhoeddi dwy gyfrol Canu Clod, casgliad emynau y Cyngor Ysgolion Sul i blant a phobl ifanc:



**Brigyn – Ynyr ac Eurig Roberts**



**Bu Meilyr Tomos yn canu'r piano yn y babell eleni eto, a thrwy hymny'n codi arian i Cymorth Cristnogol. Llongyfarchiadau iddo ar ei waith da.**



**Carys Moseley (Ebeneser, Caerdydd) yn trafod rhai ystadegau sy'n adlewyrchu sefyllfa Cristnogaeth ym Mhrydain ar hyn o bryd.**



**Lyn a Bertie, y ddau oedd yn mynd a chynnwys y babell i'w cadw dros y gaeaf – tan Eisteddfod yr Urdd y flwyddyn nesaf! Ni welwyd neb yn llwytho'n dwitiach na'r ddau yma!**



**Gwyneth Glyn**



**Tecwyn Ifan**



**Frank Olding, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Fynwy a'r Cyffiniau, yn trosgwyddo Beibl yn ôl i Aled Edwards, Cytân, er mwyn iddo yntau ei gyflwyno i'r Athro Decrec Llwyd Morgan, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod 2017, wrth i'r gwaith paratoi fynd rhagddo yn Ynys Môn.**



**Tim datgymalu'r babell ar diwedd yr wythnos (o'r chwith i'r dde): Aled Davies (Cyngor Ysgolion Sul) a Llio ei ferch, Sally Thomas (Eglwys Unedig Ddiwygiedig), Ynyr Roberts (Cytân), Geraint Tudur (Undeb yr Annibynwyr), ac Aled Edwards (Cytân).**

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 34 Awst 18, 2016 50c.



Er nad oes gan **Bafiliwn newydd yr Eisteddfod** gymaint o gymeriad a'r hen Bafiliwn Pinc, mae'r tu mewn iddo'n tra rhagori ar unrhyw beth a gafwyd o'r blaen. Nid oes yr un golofn ynddo i atal neb rhag gweld y llwyfan, ac mae'r dechnoleg yn gwbl syfrdanol!

## Rhai o'r cyfeillion a dderbyniwyd i'r Orsedd eleni:



**Gwyn Elfyn Jones**,  
Capel Seion,  
Drefach.



**Elin Maher**,  
Casnewydd (merch  
Mrs Annette Hughes,  
Clydach, a'r  
diweddar Barchg  
Gareth Thomas.)



**Aled Wyn Phillips**,  
Caerdydd (mab Mrs  
Iris Phillips,  
Aberteifi, a'r  
diweddar Barchg  
Arwyn Phillips.)



**Elis Dafydd**, Bangor  
(mab Dafydd a Sian  
Roberts, Trefor. Llun  
gan Aled Llioni.)



**Guto Dafydd**,  
emillydd Gwobr Goffa  
Daniel Owen eleni  
gyda'i nofel,  
'Ymbelydredd'. Mae'n  
fab i Dafydd a Sian  
Roberts, Trefor, ac yn  
frawd i Elis Dafydd.



**Y Parchg Adrian  
Morgan**, Gorseinon,  
yn talu teyrnged i'r  
diweddar Barchg  
Gwynn ap Gwilym a fu  
farw ar ddydd Sul yr  
Eisteddfod.



**Lansio cyfrol 'Beginnings'** Dewi Lloyd Lewis, sef hanes cynnar Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Yn y llun 9o'r chwith i'r dde), Jeff Williams (cyn-Bennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru), Dewi Lloyd Lewis (awdur y gyfrol) a Huw Thomas, (Pennaeth cyfredol Cymorth Cristnogol yng Nghymru).



**Siaradwyr y Sesiwn 4 o'r gloch** pryd yr oedd amrywiol agweddau o'r Beibl yn cael eu trafod. Cafwyd lluniau Casi Jones (dydd Llun), Beti Wyn James (dydd Mawrth) a Robin Samuel (dydd Gwener) yr wythnos ddiwethaf. Dyma Alun (dydd Mercher) a Gwilym Tudur (dydd Iau)



**Cofio Hiroshima.** Ynyr Roberts, Aled Edwards a Jane Harries (Cymdeithas y Cymod) ar ddiwedd gwasanaeth dwys a chryno i gofio bomio Hiroshima ym 1945.



Da oedd gweld y brawd **Ffred Ffransis** yn cynnal ei ddeffosiwn boreuol ym mhabeall Cadwyn ar fore Sadwrn olaf yr Eisteddfod.

Os oes eraill sydd â chysylltiad â ni fel Annibynwyr nad ydym wedi cyfeirio atynt, rhowch wybod i ni ac anfonwch lun!

*mwy o luniau ar y dudalen gefn*

## Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Llanurwchllyn, 2016

*Dyma'r ail mewn cyfres o erthyglau fydd yn ymddangos yn ystod mis Awst sydd yn grynodedd o adroddiad Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr sef y Parchg Dr Geraint Tudur.*

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ers ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Nant Gwrtheyrn, cawsom ein hatgoffa am rai ohonynt: am Michael D. Jones pan oeddem yn dathlu glaniad y Cymry ym Mhatagonia ganrif a hanner yn ôl, ac Ann Griffiths wrth i Sian Meinir ei phortreadu yn ei chyflwyniad ysgubol, 'Y Danbaid, Fendigaid Ann', cyflwyniad yr oeddem fel Undeb yn falch o gael bod â rhan yn ei noddi. A'r mis hwn, mae yna ddathlu pellach wedi bod - hanner canfed pen-blwydd y Cyngor Ysgolion Sul. A dyma ichwi rywbeth i lawenhau ynddo; o'r naw 'Medal er Anrhydedd' sydd wedi eu cyflwyno gan y Cyngor Ysgolion Sul i bobl sydd wedi gwneud cyfraniad oes i'r Ysgol Sul, mae chwech ohonynt wedi bod i Annibynwyr; Elizabeth James, Derwyn Morris-Jones, E.D. Morgan, Huw John Hughes, Arfon Jones a Ronald Williams, ac yr ydym yn diolch am gyfraniad pob un ohonynt.

### Cydweithio

I lawer ohonom, hyfrydwch yw cael cydweithio â thraddodiadau Cristnogol eraill, ac fel ym mhob blwyddyn arall fe ddigwyddodd hynny eto ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Meifod. Yn achlysurol cawn ein hunain yn gorfod gofyn, beth yw ein cyfraniad fel Cristnogion heddiw yn y sgwâr cyhoeddus, ac agwedd o'n sgwâr cyhoeddus ni fel Cymry Cymraeg yw'r Eisteddfodau, y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd, ac amrywiol sioeau eraill llai ar hyd a lled y wlad. Mae'n bwysig ein bod yn bresennol ynddynt, i gael ein gweld a'n clywed fel pobl Dduw yn yr unfed-ganrif-ar-hugain. Yn Meifod, os cofiwch, gwelwom lansio Rhwydwaith Merched yr Undeb. Nid ar y cyron y mae'n lle fel Cristnogion, ond yng nghanol pethau, oherwydd nid yw tystiolaeth guddiedig o ddim budd i neb; mae angen i'n tystiolaeth fod yn gyhoeddus.

### Rhwydweithiau

Ac mae hynny'n wir am y Gymdeithas Hanes a'r Rhwydwaith Heddwch hefyd. Dywedir 'y bydd y rhai sy'n anghofio eu hanes yn dardfod', a dyna



pam y mae diwrnod fel yr un a gafwyd yng Nghaerfyrddin ym mis Tachwedd yng nghwmni'r Dr John Morgans, a chofio rhywun fel William Erbury, y Piwritan, y Bwysig Ac mae'r Rhwydwaith Heddwch yr un mor allweddol.



Un peth yw sôn am heddwch a gwrthwynebu rhyfel o fewn ein heglwys lle'r ydym yn ddiogel rhag unrhyw feirniadaeth; mater arall yw codi llais yn gyhoeddus. Ond mae angen gwneud hynny. Pan mae pobl yn dod i'n bomio ni, mae gennym ddigon i'w ddweud; pan mae llywodraeth Llundain yn bomio eraill yn ein henw ni, mae'n bwysig fod y byd yn gweld ac yn clywed fod gennym rywbeth i'w ddweud am hynny.

### Cyngor y Genhadaeth Fydeang

Dyna i mi yw pwysigrwydd CWM a Chymdeithas Annibynwyr y Byd hefyd. A minnau wedi cael mynd i Hong Kong, yr Iseldiroedd, yr Almaen a De Corea trwy ein hymnwedd â CWM, rwy'n diolch am y cyfleoedd hynny i wneud ein llais ni fel Undeb bychan mewn gwlad fechan yn glywadwy i'r eglwys mawrion o'r gwledydd mawrion, a hynny oherwydd ein bod ni, yn aml iawn, yn gweld a deall pethau'n wahanol iddynt hwy. Pa werth sydd mewn eistedd mewn cornel yma yng Nghymru, wedi'n parlysu gan ddiffyg hyder? A dyna pam yr wyf yn edrych ymlaen at Gynhadledd Cymdeithas Annibynwyr y Byd yn Stellenbosch y flwyddyn nesaf. Yno eto, cawn wneud ein cyfraniad. O bosibl y bydd rhai ohonoch yn cofio cynhadledd Annibynwyr y Byd ym Mangor ym 1977, a chyn-gadfridog o luoedd arfog yr Unol Daleithiau ar y llwyfan yn canmol gallu niwclear ei wlad a'i pharodrwydd i'w ddefnyddio. Fe gododd Annibynwyr Cymru fel un dyn i brotestio, a hynny gyda'r fath angerdd fel bod y cadfridog wedi dychryn am ei fywyd. Dyna pam y mae'n bwysig ein bod ni yn y digwyddiadau hyn. Mae gwledydd mawr yn aml yn gwybod beth sydd orau i wledydd bach, a sefydliadau mawr, hyd yn oed rhai Cristnogol, yn meddwl weithiau eu bod yn gallu anwybyddu mudiadau bychain. Wel, nid yn achos Annibynwyr Cymru oherwydd yr ydym yn mynnu bod

yn bresennol, yn mynnu codi ein llais - sy'n dod â ni yn ôl at safiad Martin Luther 499 o flynyddoedd yn ôl.

### Y Beibl - Gair Duw

A minnau'n aml yn teimlo ein hunain wedi mynd yn eiddil ac yn ansicr, yr ydym yn gorfod gofyn, o le y cafodd Luther yr hyder i godi ei lais, ac o ble y cafodd y nerth i wneud ei safiad? Mae'r sawl sy'n gyfarwydd â'r hanes yn gwybod mai gyda'r Beibl y dechreuodd y cyfan, pan oedd Luther yn ei ddarllen ac yn paratoi i'w esbonio i eraill. Yn sydyn, cafodd ei danio gan yr hyn oedd ar y dudalen. O ddo wnebyd yn wnebyd â Gair Duw, mae pethau'n newid.

### Blwyddyn y Beibl Byw

A dyna pam y penderfynwyd gwneud 2016 yn 'Flwyddyn y Beibl Byw', oherwydd fod y Beibl, dros y canrifoedd, wedi dangos gallu rhyfeddol i wneud gwahaniaeth, i newid sefyllfaoedd ac i adfywio pobl, eglwys a Christnogaeth yn gyffredinol. Yn dilyn cyhoeddi'r Beibl Canllaw a Beibl.net yn 2015 gwnaethpwyd yn glir nad nod y flwyddyn oedd hybu gwerthiant na hyrwyddo ein dealltwriaeth bersonol ni o gynnwys y Beibl ond yn hytrach berswadio pobl i gydio mewn Beibl, ei agor a dechrau ei ddarllen. Yn ôl ymchwil a wnaethpwyd i Gymdeithas y Beibl yn 2011, dim ond 8% o bobl o fewn yr eglwys ym Mhrydain oedd yn dweud eu bod yn ystyried y Beibl yn bwysig ac yn ei ddarllen yn rheolaidd.<sup>1</sup> Fyddai'n ddim syndod o gwbl gennym ddeall fod y ganran honno erbyn hyn, bum mlynedd yn ddiweddarach, fymryn yn is eto.

A dyna pam ei bod yn bwysig sylweddoli fod defnyddio'r Beibl yn allweddol i unrhyw ymdrechion fydd gennym i'r dyfodol. Mae'n wir fod gennym adnoddau eraill sy'n gymorth i ni yn ein gwaith, ond cyn son am y rheini mae'n bwysig pwysleisio na fedrwn ni anghofio, hepgor, diystyru na gwneud yn fach o'r Beibl. Rwy'n dweud eto: mae ganddo, yn nhrefn Duw, y gallu i wneud gwahaniaeth, i newid sefyllfaoedd, ac i adfywio pobl ac eglwys. Os mai dyna'n dymuniad, mae'n rhaid i ni ei ddefnyddio ac arwain eraill i'w ddefnyddio. Mae'n ddigon drwg ein bod yn y gorffennol wedi diystyru y doniau ysbrydol y mae Duw wedi eu rhoi i'w bobl i adeiladu corff Crist; mae yna ganlyniadau wedi bod i hynny, ond byddai hepgor y Beibl, am ba reswm bynnag, yn ddiwedd ar y cwbl i gyd.



## R. Maldwyn Hughes 1936 - 2016

Cynhaliwyd angladd y diweddar Maldwyn Hughes, Gwel y Garn, Rhosybol yng Nghapel Ifan, Llannerch y medd fore dydd Sadwrn, 2 Gorffennaf am hanner awr wedi deg. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth yn enwedig ei briod Betty a'i blant Vaughan a Heather a'i phriod Dewi. Roedd yn daid balch i Eirian, Angharad, Llinos a Ceri ac yn hen daid hoffus Leanne. Roedd yn frawd annwyl i Gwilym, Glyn, Helen, Eirwen a Linda. Brawd yng nghyfraith ac ewythr hoff.

### Teyrngeid

*Yn y gwasanaeth angladdol fe draddododd Mr. Donald Glyn Pritchard deyrnged hyfryd iddo a dyma bigion ohoni.*

Serch fod Maldwyn wedi treulio rhan helaeth o'i fywyd yn Llannerch y medd, eto roedd ganddo feddwl mawr o'r Gaerwen. Ganwyd ef yn 2 *American St.*, yn blentyn hynaf Olwen ac Arthur Wyn Hughes a oedd yn gweithio yn Chwarel Dinorwig. Ddeunaw mis yn ddiweddarach ganwyd Gwilym ei frawd. Daeth cwmwl y rhyfel dros y wlad a thros yr aelwyd. Ymunodd Arthur ei dad â'r *Royal Welch* ac fel *dispatch rider* y bu farw gan adael gweddw ifanc a dau o blant mewn hiraeth ar ei ôl. Yn *American Street* y magwyd Maldwyn gydag Elizabeth Jones ei nain a thyfodd i fyny yn canmol ei henw. Hen wraig na allai ddarllen na sgwennu ond eto yr oedd y Beibl yn agored yn fynych ar ei bwrdd a hitha yn gweld mwy ynddo na geiriau. Hen wraig a'i hanfonodd i'r capel a'r Ysgol Sul.

### Bedydd

Wedi sôn am addysg uwch yn Ysgol Gaergybi ac Ysgol Gyfun Llangefni aeth ymlaen i son am ei fedydd. Cafodd ei fedyddio gyda'i gyfoedion yn Ysgol Sul Moreia, Y Gaerwen yn y pnawn gan y Parchedig Mr Jenkins gweinidog Penuel, Llangefni, a chael ei dderbyn yn gyflawn aelod yn yr hwyr gan y Parchedig R.E.Davies, Llannerch y medd. Meddai Maldwyn, "Wnai byth anghofio y drochfa a'r gynulleidfa yn canu, *Diolch i Ti yr Holl Alluog Dduw*. Dyna y pryd y deuthum i ddeall beth oedd crefydd."

### Gyrfa

Cafwyd storiâu dwys a doniol am Maldwyn y gweithiwr yn chwilio am well cyflog i gynnal ei nain. Dechreuodd weithio ym Mangor, yn casglu siwrin gyda'r *Canadian & Lion's Assurance*. Yna symud at Harri Jones yr adeiladwr yn

Rhosneigr cyn cael 'call up' i'r *Grenadier Guards* yn Llundain. Yn ystod y pumdegau bu yn hyfforddi tim Pêl Droed y Gaerwen, yn null y fyddin, gan wneud iddynt redeg traws gwlad gyda'r nosau. Doedd dim rhyfedd fod gan Gaerwen well tim na Llannerch y medd yn y cyfnod hwnnw. Gellir gweld llun y rheolwr gyda'r timau dros nifer o dymhorau.

### Setlo yn Llan

Cyflogwyd ef yn Iard Goed y Gaerwen fel cyfrifydd. Bu'n gweithio yn eu safle yn Llandudno ac yn rheolwr y safle arall yng Nghaernarfon. Dyma yr adeg y priododd â Betty Jones merch y Tyddyn, Llannerch y medd. Symudodd i'r dreflan i fyw gan ymaelodi yn Nghapel Jerwsalem y Llan. Codwyd ef yn flaenor a bu yn athro yr Ysgol Sul ac yn aelod eithriadol o selog a gweithgar. Bu'n gweithio gyda chwmni Monk's a oedd yn ehangu yr Erodrom yn y Fali. Dyma'r pryd y ganwyd Vaughan (1961) a Heather (1962) Cyfnod hapus iawn i Betty a Maldwyn. Symudodd i weithio i'r Wylfa yng nghyfnod ei hadeiladu cyn ymuno â chwmni J. P. Woods a chael ei hyfforddi yng Nghraven Arms i reoli Uned Cywion Ieir,

Llandyfydog. Ymddeolodd ym 1999 wedi naw mlynedd ar hugain o wasanaeth cydwybodol.

### Gweithgar a selog

Wedi achos y Methodistiaid ddod i ben daeth Maldwyn a Betty yn aelodau gweithgar a selog yng Nghapel Ifan. Codwyd ef yn ddiakon ac yn ysgrifennydd ariannol yr achos. Roedd yn barod i gymryd rhan yn y gwasanaethau. Bu'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Flwyddyn yn ôl rhoddodd Betty a Maldwyn swm anrhydeddus o arian i adnewyddu Cegin y Capel. Bu yn gefn i Vaughan a Heather a'i phriod Dewi a'i wyresau drwy ei oes ac yr oeddent hwythau yn ei garu ef. Gyda'r gynulleidfa hardd yn canu "Diolch i Ti yr Hollgyfoethog Dduw" yr hebrwyngwyd ef o'i gapel. Yn sicr bydd colled ar ei ôl ar yr aelwyd, gan ei deulu a'i gyfeillion a chan sefydliadau crefyddol Llannerch y medd. Dymuna'r teulu ddiolch i Melvin Rowlands am drefnu'r angladd, Gres Pritchard MBE am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i Donald Glyn Pritchard am ei wasanaeth graenus ar yr aelwyd, yng Nghapel Ifan a mynwent Llangristiolus.

R.J.

## AT Y GOLYGYDD

At y golygydd,

Cefais gryn bleser o ddarllen yn rhifyn Gorffennaf 21, 2016 o'r Tyst erthygl Alaw Mai Edwards ar Hanes Capel y Groes, Llangwm.

Roedd fy ngŵr, Tecwyn Ellis yn ddisgynnydd uniongyrchol o'r dywededig Thomas Ellis (1765-1843). Ymhlith cyhoeddiadau fy ngŵr, ar ddiwedd ei hunangofiant 'Gyda'r Godre', cynhwysir 'Elisiaid Tyddyn Eli, Llangwm a Hendre Ddu, Y Bala'. Cymdeithas Hanes Sir Ddin-

bych, Trafodion Cyf 19, 1970, 217-222. Mae copi o'r llun hwn yn 'Gyda'r Godre' ac oddi tano y geiriau 'Valerie a minnau wrth fedd y Parchg Thomas Ellis (1765-1843) yn Pentrelynecymer gyda Dafydd ac Elin'. Roedd hyn rai blynyddoedd cyn geni ein trydydd plentyn, Catrin. O edrych yn fanwl gwelir mai Tomos Elis yw'r sillafiad ar y garreg fedd. Rwyf yn teimlo balchder fod fy mhlant o linach pur nodedig yn wir. Cyfeiria Alaw Mai Edwards at wyres Emrys Jones, Llangwm a'r ffaith ei bod yn priodi y flwyddyn nesaf. Pob dymuniad da i Mari Fflur. Onid ydym yn perthyn?

Valerie Ellis

